



# Gwers 7

## Y Prawf



Cyfres Stori Duw

### Genesis 22:1 – 19



#### Nod:

Gweld bod Duw yn disgwyl i ni ei roi Ef yn gyntaf yn ein bywydau.

#### Adnodau:

Genesis 22:1 – 19

#### Gweithgaredd:

Cwis bychan 'Pwy ddaeth Gyntaf?'

Gofynnwch y cwestiynau canlynol. Fe fydd angen i chi edrych am atebion rhai gan eu bod yn newid o wythnos i wythnos.

1. Pwy oedd y person cyntaf i gerdded ar y lleuad? *Neil Armstrong*
2. Pwy oedd y cyntaf i redeg milltir mewn llai na 4 munud? *Roger Bannister*
3. Pwy greodd yr injan stem gyntaf? *George Stevenson*
4. Pwy enillodd y 'Premier League' pêl-droed cyntaf yn 1992/93? *Manceinion Unedig*
5. Pwy ddyfeisiodd y teleffon cyntaf? *Alexander Graham Bell*

Gallwch ofyn cwestiynau, megis 'pwy sydd ar frig siart y senglau'r wythnos hon?'; Pwy sydd ar frig y gynghrair pêl-droed/rygbi?'

Neu, rhai sy'n berthnasol i'r dosbarth, e.e. 'pwy gyrhaeddodd y wers gyntaf heddiw?'; Pwy oedd y cyntaf i gael eu geni o bawb yn y dosbarth?'

Gwnewch yn glir fod y cwis yn trafod 'dod yn gyntaf'. Mae ein hanes heddiw yn dangos beth ddigwyddodd wrth i Dduw ofyn i Abraham ei roi Ef yn gyntaf.

#### Darllen yr adnodau:

Genesis 22:1–19, darllenwch yr hanes gan ofyn i'r dosbarth ddilyn yn eu Beiblau hwy.

#### Trafodaeth:

Mae Duw yn gofyn i Abraham ddangos ei fod yn rhoi Duw o flaen pob peth arall yn ei fywyd, yn cynnwys ei deulu. Sut gredwch chi oedd Abraham yn teimlo pan ofynnodd Duw hyn iddo?

Pan ddangosodd Abraham ei fod yn rhoi Duw gyntaf, fe gadarnhaodd Duw y cyfamod a wnaeth ef gydag Abraham. Gofynnwch a ydynt yn cofio 3 phwynt y cyfamod o wers wythnos diwethaf?

1. Bydd Abraham yn cael llawer o ddisgynyddion ac yn dod yn Genedl fawr.
2. Fe fydd yn mwynhau perthynas arbennig gyda Duw, un sy'n llawn bendith.
3. Fe fydd pobl yr holl fyd yn cael eu bendithio drwy Abraham.

Gofynnwch a yw'r bobl ifanc yn gallu gweld rhai o bwyntiau'r cyfamod hwn yn y wers heddiw?

#### Gweithgaredd:

Gêm – Dim ond un Meistr. Fe fydd angen o

leiaf un eitem arnoch, e.e. pêl, llyfr, bocs, ayb i bob person.

Gofynnwch i'r bobl ifanc sefyll mewn cylch, a rhowch eitem bob un iddynt (dim llawer o ots beth yw'r eitemau, neu os yw'r eitemau'n wahanol). Os oes llai na deg yn y grŵp rhowch ddwy eitem i bob person. Diben y gêm yw pasio'r eitemau i'r person ar y dde a derbyn eitemau gan y person ar y chwith mor gyflym â phosibl. Pan fydd rhywun yn gollwng eitem ar y llawr (neu'n cymryd gormod o amser i basio neu dderbyn eitem, bydd y person yna allan ond mae eu heitemau yn aros yn y gêm. Mae'r gêm yn gorffen pan fydd un ar ôl.

Wedi chwarae'r gêm, eglurwch ei bod hi'n anodd trafod mwy nag un eitem ar y tro. Mae'n hawdd i ninnau lithro yn ein bywydau ninnau drwy geisio ufuddhau i ddau feistr sy'n ein harwain i gyfeiriadau gwahanol.

## **Sgwrs:**

Gofynnwch pa bethau sydd, neu a fyddai'n gallu cymryd lle Duw yn ein bywydau? Pe byddai Duw yn gofyn, fydden ni'n fodlon aberthu/rhoi'r gorau i'r pethau hyn?

Trafodwch enghreifftiau modern o Gristnogion yn aberthu er mwyn dangos mai Duw sy'n dod gyntaf yn eu bywydau. Mae Eric Liddel (a ddaeth yn enwog yn y ffilm 'Chariots of Fire') yn un enghraifft. Os oes modd, gallwch ddangos clip o'r ffilm lle mae'n gwrthod rhedeg mewn ras yn y gemau Olympaidd gan ei bod ar y Sul. Os nad yw dangos clip yn bosibl, mae ei stori ar

gael mewn amryw o lefydd ar y We.

Yn ogystal, gellir trafod cenhadon Cristnogol, rhai sy'n symud i bellafoedd y ddaear, gan roi heibio cyfoeth, moethusrwydd ac yn aml hyd yn oed eu bywydau, i wasanaethu Duw.

## **Amser Addoli:**

Weithiau fe fydd Duw yn gofyn i ni aberthu er mwyn ei ddilyn Ef. Ond gwelwn ragflas yn adnod 8, 'Duw ei hun fydd yn darparu oen y poethoffrwm', o aberth mawr Dduw er ein mwyn ni. Diolchwch i Dduw fod Iesu wedi rhoi ei hun yn aberth drosom, ei fod Ef wedi marw er mwyn i ni gael byw. Diolch iddo. Amen.